# ASESIAD RISG

| MAES / GWEITHGAREDD / TASG SY'N CAEL EI (H)ASESU: | Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle | | |
|---|---|---|---|
| ADRAN: | Pawb | | |
| GWASANAETH: | Pawb | | |

| CYFEIRNOD | FERSIWN | DYDDIAD YR ASESIAD | DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF |
|---|---|---|---|
| RA-ALL-SH-001 | 1 | 21/10/2024 | 21/10/2027 |

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad o'r gwaith a chwmpas yr asesiad:**<br>• Gweithgareddau,<br>• Amgylchedd(au)<br>• Offer, deunyddiau ac ati. | Mae hwn yn asesiad risg cyffredinol i dynnu sylw at rai o'r risgiau o aflonyddu rhywiol yn y gweithle a'r mesurau rheoli sydd ar waith i'w atal.<br><br>Dylai rheolwyr sicrhau eu bod yn cynnwys unrhyw risgiau penodol o fewn eu gwasanaeth yn eu hasesiadau risg gweithgaredd a chymryd unrhyw gamau rhesymol i atal y cyfle i achosi aflonyddu rhywiol i weithwyr o ffynonellau mewnol ac allanol. |
| **Cyfeiriad/Lleoliad cynnal yr asesiad:** | Holl Weithleoedd / Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Deddfwriaeth/ Safonau Rheoli** | Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974<br>Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 |

| Enw'r Asesydd/Aseswyr Risg | Teitl y Swydd: | Llofnod yr Asesydd/Aseswyr Risg |
|---|---|---|
| Jackie Bergiers | Partner Busnes Arweiniol (Iechyd a Diogelwch) | J Bergiers |
| Ann Clark | Rheolwr Adnoddau Dynol (Partneriaeth Busnes) | A Clark |
| Hayley Daniels | Partner Busnes Arweiniol (Gweithlu'r Dyfodol) | H Daniels |

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Ymddygiadau amhriodol yn y gweithle (mewnol – rhwng gweithwyr)** | Gweithwyr<br><br>Defnyddio ymddygiad amhriodol a'r iaith a ddefnyddir yn y gweithle neu mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r gweithle.<br><br>Gall diwylliant yn y gweithle sy'n goddef agweddau penodol, ymddygiadau amhriodol a safbwyntiau ystrydebol lle nad yw gweithwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch wneud staff yn fwy agored i aflonyddu rhywiol. | Mae'r sefydliad wedi mabwysiadu Canllawiau Safonau Ymddygiad cadarn sy'n mynd i'r afael yn benodol ag aflonyddu rhywiol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau clir o aflonyddu rhywiol, a gweithdrefn adrodd gynhwysfawr. Mae'r canllawiau ar gael i'r holl staff drwy'r fewnrwyd.<br><br>Mae'r canllawiau'n tynnu sylw at system o gefnogaeth i'r rhai yr effeithir arnynt neu sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol, gan gynnwys mynediad i'r Gwasanaeth Llesiant Gweithwyr trwy Iechyd Galwedigaethol, hwyluso mewnol neu gyfryngu allanol yn y gweithle. | **ISEL** | 1. Darparu hyfforddiant cynhwysfawr i staff ar gydnabod a rhoi gwybod am aflonyddu rhywiol, ymyrraeth gwyliedydd a chanlyniadau aflonyddu rhywiol.<br><br>2. Darparu hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant rheolaidd i uwch-arweinwyr a rheolwyr gyda ffocws ar ragfarn ddiarwybod a'u rôl wrth atal gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu rhag digwydd yn y gweithle.<br><br>3. Monitro ein diwylliant yn y gweithle trwy arolygon dienw, | **ISEL** |

# ASESIAD RISG

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Awdurdod hefyd wedi mabwysiadu polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r holl bolisïau, canllawiau a gwasanaethau cymorth yn hygyrch i'r holl staff drwy'r fewnrwyd.<br><br>Hyfforddiant gorfodol i bob gweithiwr a rheolwr ar yr ymddygiad a ddisgwylir yn y gweithle.<br><br>Polisïau a gweithdrefnau eraill ar waith i annog pobl i roi gwybod am ymddygiad amhriodol a chamau i'w cymryd i fynd i'r afael â'r mater gan gynnwys y polisi achwyniadau, datgelu camarfer ac ati. | | holiaduron ymadael, sgyrsiau un-i-un, cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith a grwpiau cysylltiadau â'r gweithwyr i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion risg uchel.<br><br>4. Ymgysylltu â hyrwyddwyr llesiant yn y gweithle sydd wedi'u hyfforddi mewn aflonyddu rhywiol.<br><br>5. Sicrhau bod canllawiau Safonau Ymddygiad yn cael eu hadolygu a'u cyfleu i staff yn rheolaidd. | |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | **Anghydbwysedd pŵer** | Gweithwyr<br><br>Gall staff sydd mewn swyddi israddol, gan gynnwys gweithwyr iau a recriwtiaid newydd, fod mewn mwy o berygl o brofi aflonyddu rhywiol. Mae hyn oherwydd y gall yr anghydbwysedd pŵer sy'n bodoli mewn perthynas o'r fath greu cyfleoedd i gamfanteisio. Gall hefyd fod yn anoddach i unigolion yn y swyddi israddol hyn godi llais oherwydd ofn dial neu ganlyniadau negyddol. | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau Safonau Ymddygiad cadarn sy'n mynd i'r afael yn benodol ag aflonyddu rhywiol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau clir o aflonyddu rhywiol a gweithdrefn adrodd gynhwysfawr. Mae'r canllawiau'n cynnwys sawl sianel adrodd i sicrhau y gall staff roi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol yn ddiogel, hyd yn oed os yw'r aflonyddwr mewn sefyllfa o bŵer. Mae cynnwys sawl sianel adrodd yn sicrhau didueddrwydd ac amddiffyniad rhag canlyniadau negyddol neu ddial. Mae'r canllawiau ar gael i'r holl staff drwy'r fewnrwyd. | ISEL | 1. Darparu hyfforddiant cynhwysfawr i staff ar gydnabod a rhoi gwybod am aflonyddu rhywiol, ymyrraeth gwyliedydd a chanlyniadau aflonyddu rhywiol. Dylai'r hyfforddiant hwn hefyd gynnwys anghydbwysedd pŵer a sut y gall hynny gyfrannu at aflonyddu rhywiol.<br><br>2. Darparu hyfforddiant ychwanegol i reolwyr sydd â'r nod o atal camddefnydd o bŵer a'u rôl wrth atal a stopio bwlio ac aflonyddu rhag digwydd yn y gweithle. | ISEL |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# ASESIAD RISG

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 3. Sicrhau bod rheolwyr sy'n ymwneud â delio â chwynion am aflonyddu rhywiol yn cael hyfforddiant priodol i fynd i'r afael â chymhlethdodau achosion sy'n ymwneud ag anghydbwysedd pŵer a'r angen i fod yn annibynnol heb unrhyw wrthdaro buddiannau yn dylanwadu arnynt. | |
| **3.** | **Staff sy'n mynychu digwyddiadau/cynadleddau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwaith lle mae alcohol yn cael ei yfed neu lle gall fod camddefnyddio sylweddau** | Gweithwyr<br><br>Gall yfed alcohol / camddefnyddio sylweddau amharu ar farn a lleihau swildod, gan arwain o bosibl at fod unigolion yn ymddwyn | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Canllawiau Safonau Ymddygiad cadarn sy'n mynd i'r afael yn benodol ag aflonyddu rhywiol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau clir o aflonyddu | ISEL | 1. Ar gyfer cynadleddau / digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith sydd i fod i gael eu cynnal, ystyriwch a oes angen goruchwyliaeth a/neu lefelau staffio digonol ynddynt i | ISEL |

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy’n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | mewn ffyrdd na fyddent yn gwneud mewn cyflwr sobr. | rhywiol, a gweithdrefn adrodd gynhwysfawr.<br><br>Mae'r awdurdod hefyd wedi mabwysiadu polisi Alcohol a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n atal yfed alcohol neu sylweddau ar ei safle.<br><br>Ceir Côd Ymddygiad Gweithwyr sy'n cael cyhoeddusrwydd amlwg, a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir mewn digwyddiadau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwaith, sy'n ei gwneud yn glir na fydd gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu o unrhyw fath yn cael ei oddef.<br><br>Mae'r holl bolisïau, canllawiau a negeseuon corfforaethol yn | | fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw achosion posibl o aflonyddu rhywiol yn brydlon.<br>2. Dynodi aelodau penodol o staff yn bwyntiau cyswllt i unigolion roi gwybod am bryderon neu ofyn am gymorth.<br><br>3. Atgyfnerthu polisïau perthnasol sy'n arwain at y digwyddiadau hyn i atgoffa staff a mynychwyr am bwysigrwydd sicrhau amgylchedd diogel, yn rhydd o wahaniaethu, bwlio neu aflonyddu. | |

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | hygyrch i'r holl staff drwy'r fewnrwyd. | | | |
| **4.** | **Diffyg ymwybyddiaeth o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth** | Gweithwyr<br><br>Mae cefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol ledled y sefydliad yn teimlo'n ymylol, yn fwy agored i aflonyddu rhywiol ac yn llai grymus i godi llais oherwydd ofn dial. | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Canllawiau Safonau Ymddygiad cadarn. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau clir o aflonyddu rhywiol a gweithdrefn adrodd gynhwysfawr.<br><br>Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys sawl sianel adrodd i sicrhau y gall staff roi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol yn ddiogel, hyd yn oed os yw'r aflonyddwr mewn sefyllfa o bŵer.<br><br>Mae cynnwys sawl sianel adrodd yn sicrhau didueddrwydd ac amddiffyniad rhag | **ISEL** | 1. Darparu hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant rheolaidd i bob gweithiwr gan ganolbwyntio ar ragfarn anymwybodol.<br><br>2. Cynnal cynllun mentora o chwith lle gall uwch-arweinwyr a rheolwyr ddysgu gan eraill am eu profiadau byw a'r heriau y maent wedi'u hwynebu yn y gwaith oherwydd eu bod yn dod o grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol neu leiafrifol. | **ISEL** |

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | canlyniadau negyddol neu ddial.<br><br>Mae'r Awdurdod hefyd wedi mabwysiadu polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r holl bolisïau a chanllawiau ar gael i'r holl staff drwy'r fewnrwyd. | | 3. Sefydlu digwyddiadau a gweithdai cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy grwpiau cysylltiadau â'r gweithwyr. Sicrhau bod uwch-arweinwyr a rheolwyr yn mynychu'r digwyddiadau a'r gweithdai hyn i addysgu eu hunain am yr heriau y mae eraill yn eu hwynebu.<br><br>4. Cymryd camau rhesymol a phriodol i annog ceisiadau am swydd ar gyfer pob rôl ac yn arbennig rolau uwch arweinyddiaeth / rheoli gan ystod mor amrywiol â phosibl o bobl. | |

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| 5. | **Digwyddiadau penodol sy'n codi tensiynau yn lleol neu'n genedlaethol** | Gweithwyr<br><br>Gall digwyddiadau sy'n codi tensiynau yn lleol neu'n genedlaethol greu ymatebion cryf, polareiddio barn a chreu rhaniad yn y gweithle. Mewn amgylcheddau o'r fath, gall unigolion deimlo eu bod yn gorfod arddel eu credoau yn rymus, gan arwain weithiau at aflonyddu neu ymddygiad gelyniaethus tuag at y rhai yn y gweithle sydd â safbwyntiau gwahanol. | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau Safonau Ymddygiad cadarn. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau clir o aflonyddu rhywiol a gweithdrefn adrodd gynhwysfawr.<br><br>Mae'r canllawiau'n cynnwys sawl sianel adrodd i sicrhau y gall staff roi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol yn ddiogel, hyd yn oed os yw'r aflonyddwr mewn sefyllfa o bŵer.<br><br>Mae cynnwys sawl sianel adrodd yn sicrhau didueddrwydd ac amddiffyniad rhag canlyniadau negyddol neu ddial. | ISEL | 1. Darparu hyfforddiant cynhwysfawr i staff ar gydnabod a rhoi gwybod am aflonyddu rhywiol, ymyrraeth gwyliedydd a chanlyniadau aflonyddu rhywiol.<br><br>2. Atgoffa staff o ymagwedd dim goddefgarwch y sefydliad tuag at wahaniaethu, bwlio, aflonyddu ac aflonyddu rhywiol yn y gweithle yn ystod unrhyw ddigwyddiad o'r fath ac atgyfnerthu'r canllawiau Safonau Ymddygiad. | ISEL |

# ASESIAD RISG

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r canllawiau ar gael i'r holl staff drwy'r fewnrwyd. | | 3. Cynnal sgyrsiau rheolaidd gyda gweithwyr yn ystod unrhyw ddigwyddiad o'r fath i sicrhau eu llesiant a helpu i nodi unrhyw broblemau posibl. | |
| **6.** | **Gweithio ar eich pen eich hun** | Gweithwyr<br><br>Aflonyddu neu aflonyddu rhywiol wrth weithio ar eich pen eich hun oherwydd cefnogaeth neu oruchwyliaeth gyfyngedig. | Mae'r sefydliad wedi mabwysiadu Canllawiau Safonau Ymddygiad cadarn sy'n mynd i'r afael yn benodol ag aflonyddu rhywiol.<br><br>Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau clir o aflonyddu rhywiol, a gweithdrefn adrodd gynhwysfawr.<br>Mae'r canllawiau ar gael i'r holl staff drwy'r fewnrwyd. | **CANOLIG** | 1. Dylai rheolwyr sicrhau bod yr holl risgiau i weithwyr tra'n gweithio ar eu pennau eu hunain yn cael eu nodi yn eu hasesiadau risg gweithgaredd a bod mesurau rheoli addas yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau.<br><br>2. Dylid atgoffa pob gweithiwr o'r gofyniad i roi gwybod am unrhyw achosion o drais, | **ISEL** |

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ymddygiad ymosodol, aflonyddu neu fwlio sy'n digwydd yn y gwaith.<br><br>3. Rhaid i reolwyr gymryd camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn eu trefniadau yn dilyn digwyddiadau a riportiwyd. | |
| 7. | **Ymddygiad amhriodol yn y gweithle (allanol – o drydydd parti)** | Gweithwyr<br><br>Rolau sy'n cynnwys rhyngweithio'n fwy aml gyda ffynonellau allanol fel aelodau o'r cyhoedd, contractwyr, cyflenwyr ac ati.<br><br>Trais, ymddygiad ymosodol, aflonyddu neu | Mae'r sefydliad wedi mabwysiadu Canllawiau Safonau Ymddygiad cadarn sy'n mynd i'r afael yn benodol ag aflonyddu rhywiol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau clir o aflonyddu rhywiol, a gweithdrefn adrodd gynhwysfawr. Mae'r canllawiau ar gael i'r holl staff drwy'r fewnrwyd. | CANOLIG | 1. Dylai rheolwyr sicrhau bod yr holl risgiau i weithwyr tra'n gweithio ar eu pennau eu hunain yn cael eu nodi yn eu hasesiadau risg gweithgaredd a bod mesurau rheoli addas yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau. | ISEL |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | | fwlio oherwydd anghenion cymhleth neu sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gan ddefnyddwyr gwasanaeth. | Mae'r canllawiau'n tynnu sylw at system o gefnogaeth i'r rhai yr effeithir arnynt neu sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol, gan gynnwys mynediad i'r Gwasanaeth Llesiant Gweithwyr trwy Iechyd Galwedigaethol, hwyluso mewnol neu gyfryngu allanol yn y gweithle.<br><br>Mae'r Awdurdod hefyd wedi mabwysiadu polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r holl bolisïau, canllawiau a gwasanaethau cymorth yn hygyrch i'r holl staff drwy'r fewnrwyd.<br><br>Hyfforddiant gorfodol i bob gweithiwr a rheolwr ar yr ymddygiad a ddisgwylir yn y gweithle. | | 2. Dylid atgoffa pob gweithiwr o'r gofyniad i roi gwybod am unrhyw achosion o drais, ymddygiad ymosodol, aflonyddu neu fwlio sy'n digwydd yn y gwaith.<br><br>3. Rhaid i reolwyr gymryd camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn eu trefniadau yn dilyn digwyddiadau a riportiwyd.<br><br>4. Cyngor ac arweiniad arbenigol ar sut i reoli achosion o anghenion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad neu anghenion cymhleth sydd ar gael gan | |

# ASESIAD RISG

| Rhif yr Eitem | Nodi Perygl(on) | Pwy/beth sy'n debygol o gael niwed a sut? | Mesurau Rheoli Presennol/Cyfredol | Gradd Risg yn ôl y Matrics | Y camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn lleihau'r risg & Y person sy'n gyfrifol am y camau gweithredu | Risg(iau) gweddilliol yn ôl y matrics ar ôl mesurau rheoli ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Polisïau a gweithdrefnau eraill sydd ar waith i annog pobl i roi gwybod am ymddygiad amhriodol a chamau i gael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater gan gynnwys y polisi achwyniadau, datgelu camarfer ac ati. | | wasanaethau cymorth ymddygiadol, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr meddygol proffesiynol. | |

# ASESIAD RISG

## MATRICS GWERTHUSO

DIFRIFOLD

TEBYGOLRWYDD Y BYDD YN

| TEBYGOLRWYDD Y BYDD YN | Colled ddibwys | Mân Anaf | Anaf sy'n para dros 7 diwrnod | Anaf Difrifol |
|---|---|---|---|---|
| **Yn sicr**<br>Gellir disgwyl i ddamwain/digwyddiad ddigwydd | | | | |
| **Hynod Debygol**<br>Siawns uchel y bydd damwain/digwyddiad yn digwydd | | CANOLIG | | |
| **Tebygol**<br>Siawns ganolig y bydd damwain/digwyddiad yn digwydd | | | | UCHEL |
| **Annhebygol**<br>Tebygolrwydd isel y bydd damwain/digwyddiad yn digwydd | DIBWYS | ISEL | CANOLIG | |
| **Dim gwahaniaeth**<br>Cyn lleied o siawns y bydd damwain/digwyddiad yn digwydd bod y risg yn agos at sero | | | | |

| LEFELAU GWEITHREDU RISG: | Colled ddibwys | Mân Anaf | Anaf sy'n para dros 7 diwrnod | Anaf Difrifol |
|---|---|---|---|---|
| **RISG DDIBWYS**<br>Nid oes angen cymryd camau pellach.<br><br>**RISG ISEL**<br>Ystyriwch leihau'r risg os yw'r gost (amser/arian/ymdrech) yn fach neu os nad oes cost o gwbl.<br><br>**RISG CANOLIG**<br>Ystyriwch fesurau rheoli newydd/ychwanegol er mwyn lleihau'r risg i fod mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.<br><br>**RISG UCHEL**<br>Rhaid cyflwyno mesurau rheoli newydd/ychwanegol ar unwaith i leihau'r risg i lefel dderbyniol. Ni ddylai unrhyw waith newydd fynd yn ei flaen. | • Dim anaf personol<br>• Mân anghyfleustra | • Triniaeth cymorth cyntaf yn unig<br>• Crafiadau, mân gwtau, cleisiau<br>• Salwch dros dro<br>• Cyfog, pen tost,<br>• Difrod mân i eiddo<br>• Llai o Wasanaeth | • Anafiadau sydd angen triniaeth feddygol fel bys, bawd neu fys troed wedi torri, clwyfau sydd angen pwythau.<br>• Straeniau, ysigiadau neu gleisio difrifol.<br>• Mân losgiadau.<br>• Colli gwasanaeth | • Torri asgwrn<br>• Trychiad<br>• Colli golwg/clyw<br>• Anaf, llosgiadau neu golli ymwybyddiaeth yn dilyn sioc drydanol<br><br>**NEU**<br><br>**Marwolaeth**<br><br>Sydyn, neu oherwydd cyflwr a fydd yn arwain at farwolaeth yn y pen draw |